Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangain
# Llangain
# Sir Gaerfyrddin
# SA33 5AE

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llangain o fewn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae wedi ei lleoli rhyw bum milltir i'r de orllewin o dref Caerfyrddin ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i hamgylch.

Mae 26 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed ar y gofrestr. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion yn rhan amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd ac yna yn amser llawn ar ddechrau’r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae 19% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae tua 14% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canran hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Daw lleiafrif o ddisgyblion (tua 30%) o gartrefi lle siaredir Cymraeg gartref. Nid oes disgyblion o gefndir ethnig, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2009. Mae’r pennaeth presennol yn arwain yr ysgol ers Ebrill 2013, yn ogystal ag ysgol arall gyfagos.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llangain yn 2015-2016 yw £6,020. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Llangain yn seithfed o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn
- mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr aeddfed sy'n defnyddio'u medrau dysgu yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu
- mae medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn datblygu'n gadarn
- mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gofal a chonsyrn mawr am ei gilydd, ac yn cynnig cymorth yn ddigymell i'w cyd-ddisgyblion
- mae athrawon yn annog medrau dysgu annibynnol y disgyblion trwy amryw o ddulliau addysgu yn effeithiol
- mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn yr ysgol, ac yn dylanwadu'n dda ar safonau disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae'r pennaeth yn rhannu ei hadnabyddiaeth gadarn o holl agweddau'r ysgol yn effeithiol gyda'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr
- mae'r strwythur staffio yn galluogi pob aelod o staff i gymryd, a rhannu, cyfrifoldeb a chydweithio'n hwylus
- mae'r pennaeth a'r athrawon yn adnabod anghenion datblygu'r ysgol, ac yn sicrhau gwelliannau ar gyfer y disgyblion
- mae'r wybodaeth sy'n deillio o weithgareddau hunanarfarnu yn gyfrwng i'r ysgol adnabod a chynllunio camau gwelliant yn llwyddiannus
- mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol, a'r blaenoriaethau gwella yn berthnasol i sefyllfa gyfredol yr ysgol

## Argymhellion

A1 Ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn llawn

A2 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn derbyn her briodol i gyflawni'n gyson ar safon sy'n gymesur â'u gallu

A3 Sicrhau bod dyheadau disgyblion yn dylanwadu'n glir ar eu gweithgareddau dysgu

A4 Cryfhau rôl y llywodraethwyr ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion wrth ddechrau yn yr ysgol yn dda. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Yn gynnar iawn yn eu gyrfa ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr aeddfed sy'n defnyddio'u medrau dysgu yn llwyddiannus ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae medrau llafar bron pob disgybl yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, o oed cynnar, maent yn sgwrsio'n naturiol ac yn rhugl yn Gymraeg o fewn gwersi, ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae'r disgyblion hynny sy'n hanu o gartrefi lle nad yw'r teulu'n siarad Cymraeg yn caffael yr iaith yn gyflym a llwyddiannus. Mae disgyblion o bob oed yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau a chyflwyniadau. Gallant fynegi barn yn glir ac ymateb yn estynedig i gwestiynau. Erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu geirfa lafar bynciol a chyffredinol eang yn Gymraeg a Saesneg wrth ymdrin â'u gwaith. Maent yn cyfrannu'n effeithiol ac yn estynedig yn y ddwy iaith i drafodaethau dosbarth ac wrth ymateb i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu mynegi eu barn ar amrywiol faterion yn glir, gan strwythuro'i dadleuon yn briodol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y ddisgyblion yn datblygu'n gadarn drwy'r ysgol. Mae gan lawer ohonynt ddiddordeb mewn llyfrau, ac maent yn trafod eu cynnwys yn ddeallus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau darllen Cymraeg yn datblygu'n gadarn, gyda llawer o'r disgyblion yn medru defnyddio goslef llais yn dda i gyfleu ystyr. Mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn defnyddio technegau effeithiol i ddarllen geiriau anodd neu anghyfarwydd. Maent yn darllen ffynonellau amrywiol fel taflenni, y bwrdd gwyn, a phosteri dosbarth i'w galluogi i ymateb i weithgareddau'r dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2 , mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol effeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio ffynonellau gwahanol yn llwyddiannus, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er mwyn caffael gwybodaeth sy'n cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn deall nodweddion llyfrau ac awduron yn dda ac yn gallu nodi eu hoffterau'n glir.

Mae medrau ysgrifennu Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae llawer ohonynt yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Gall llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 ysgrifennu darnau estynedig mewn ystod addas o ffurfiau, wrth ymateb i weithgareddau amrywiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr yn gywir at berson sy'n gweithio mewn sŵ yn dilyn ymweliad.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg a Saesneg mewn ystod dda o ffurfiau i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn effeithiol. Maent yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ar draws y

cwricwlwm, gan ddefnyddio geirfa dda yn y ddwy iaith. Maent yn ffurfio brawddegau a pharagraffau diddorol am amrywiol bynciau, er enghraifft i ddisgrifio arbrawf am sut mae llwydni'n datblygu mewn gwyddoniaeth, neu i ysgrifennu stori greadigol yn seiliedig ar ragfynegi beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf mewn llyfr stori. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn llwyddo i gyrraedd safon sy'n cyfateb i'w gallu.

Yn gyffredinol, mae cyflwyniad gwaith y disgyblion yn daclus a threfnus, ond nid yw safon llawysgrifen llawer o'r disgyblion yn ddigon da.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cyflawni amrywiaeth dda o waith mathemateg i safon sy'n briodol i oed a gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae gallu cyfrifo'r rhan fwyaf yn gadarn, ac maent wedi meistroli'r pedair rheol sylfaenol yn dda. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gallu mesur mewn unedau ansafonol a safonol, ac maent yn gallu creu graffiau syml yn seiliedig ar ddata maent yn ei gasglu. Gallant ddatrys problemau syml yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn wrth fesur hyd, lled, arwynebedd ac amser. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol yn llwyddiannus i ddatrys ystod dda o broblemau rhif.

Mae disgyblion yn dangos amrywiaeth dda o waith rhifedd mewn amryw o gyd-destunau ar draws pynciau'r cwriwcwlwm. Er enghraifft, maent yn gallu newid o fesuriadau metrig i fesuriadau imperialaidd fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd, a chasglu, cofnodi a dadansoddi data am effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon. Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn gweithio ar lefel briodol i'w hoed a'u gallu, ac yn cyfateb i'r safonau yn y gwersi mathemateg.

Mae niferoedd y disgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 bob blwyddyn yn isel. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon ar sail data perfformiad yr ysgol. Mae cofnodion asesiadau disgyblion unigol dros gyfnod yn dangos bod y rhan fwyaf yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o'u man cychwyn hyd at ddiwedd Blwyddyn 6.

Nid oes unrhyw batrwm o wahaniaeth rhwng cyflawniadau bechgyn a merched, ac mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd a Saesneg fel iaith ychwanegol a, gan eu bod yn cychwyn yn yr ysgol yn ifanc, maent yn llwyddo i gaffael iaith yn gyflym iawn.

Nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyrraedd safonau sy'n briodol i'w gallu.

**Lles: Da**

Yn gyffredinol, mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Gwyddant at bwy i droi pan fyddant angen cymorth neu gyngor. Mae rhan fwyaf y

ddisgyblion yn dangos gofal a chonsyrn mawr am ei gilydd, ac yn cynnig cymorth yn ddigymell i'w cyd-ddisgyblion, mewn gwersi neu mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol. Yn gyffredinol, dros y pedair mlynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion wedi cynnyddu'n raddol. Erbyn 2015, mae presenoldeb yn y 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn welliant o fod yn y 25% isaf am y tair blynedd cyn hynny.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, ac wedi cael ychydig o ddylanwad ar rai agweddau o fywyd yr ysgol. Gwnaethant gyfraniad cadarnhaol tuag ddatblygu rheolau'r ysgol a chyfrannu erthygl i bapur newydd lleol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfle i gymryd cyfrifoldeb llawn am feysydd sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ac maent yn deall yn dda pa mor llwyddiannus maent yn cwblhau tasgau, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mewn gwersi ac allan ar y iard chwarae, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn gyson dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn dda. Fodd bynnag, nid yw gofynion y cwricwlwm ar gyfer gwyddoniaeth yn cael eu darparu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl i ddarparu ystod werthfawr o brofiadau dysgu diddorol sy'n enyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae cynllunio'r athrawon yn fanwl ac yn sicrhau cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o raglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd yn llwyddiannus er mwyn targedu unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy astudio chwedlau, storïau a gwaith arlunwyr o Gymru.

Mae ymweliadau lleol, er enghraifft â Fferm Folly, Amgueddfa Wlân Cymru ac amgueddfa Abertawe yn cyfoethogi'r profiadau a chefnogi'r dysgu yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth drwyadl am gyrhaeddiad disgyblion ac mae tasgau'n cael eu haddasu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran eang yn y

dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw'r sialens ar gyfer disgyblion uwch eu gallu bob amser yn ddigonol. Mae athrawon yn annog medrau dysgu annibynnol y disgyblion trwy amryw o ddulliau addysgu yn effeithiol.

Mae perthynas waith dda iawn rhwng disgyblion, athrawon a'r staff cynorthwyol. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol i gadw bron pob un disgybl ar dasg. Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol gyda holi medrus sy'n cyfoethogi'r dysgu. Mae staff cymorth o ansawdd da yn yr ysgol a chânt eu defnyddio'n effeithiol yn yr holl ddosbarthiadau.

Er bod gan yr ysgol system asesu newydd, sy'n asesu cyflawniad disgyblion ac olrhain cynnydd yn addas, nid yw eto wedi ei gwreiddio'n llwyr. Mae'r adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd i ymateb yn ddigon llawn i'r sylwadau hyn.

Mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn yr ysgol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwybod beth yw nod gwers ac mae'r meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu â'r disgyblion yn effeithiol mewn llawer o wersi. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r athrawon yn rhoi cyfle i ddisgyblion osod eu meini prawf eu hunain. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion hunanasesu yn erbyn y meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn arwain at y disgyblion yn gwybod y camau nesaf ar gyfer gwelliant yn dda.

Mae disgyblion yn cael cyfle cyson i nodi'r hyn y dymunant ei ddysgu mewn thema; fodd bynnag, nid yw hyn yn dylanwadu'n ddigonol ar gynllunio gweithgareddau dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch camau dysgu nesaf y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae polisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion ac mae cyfleoedd cyson i fyfyrio. Mae'r ysgol yn hybu ymddygiad da yn llwyddiannus drwy system wobrwyo ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. Mae hyn ar ei orau yn ystod gwaith grŵp y "ditectifs meddwl" lle mae'r disgyblion yn derbyn arweiniad gwerthfawr ar sut i reoli ymddygiad.

Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys y gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, meddygol a'r heddlu. Mae anghenion disgyblion yn cael eu bodloni'n dda wrth dargedu arbenigedd a chefnogaeth briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da er mwyn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn fuan ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ar draws holl weithgareddau'r ysgol. Mae targedau cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn glir ac

yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r athrawon ar wahanol strategaethau ar gyfer darparu'r gefnogaeth briodol. Yn ogystal, mae'r cynlluniau yn nodi strategaethau y gall rhieni eu defnyddio er mwyn cefnogi eu plant i gyrraedd eu targedau. Mae disgyblion yn rhan amlwg o'r broses wrth lunio'r cynlluniau ac wrth adolygu'r targedau'n gyson.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Llangain yn ysgol deuluol a chartrefol sydd yn cefnogi holl ddisgyblion yr ysgol. Mae ethos cryf o barchu eraill ymhlith y disgyblion a'r staff, sy'n amlwg yn y ffordd mae disgyblion yn cydweithio a chyd-chwarae. Mae'r athrawon a'r staff yn trin pob disgybl yn gyfartal.

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol i ateb gofynion y disgyblion, tu fewn a thu allan i'r adeilad. Cânt eu defnyddio'n effeithiol i hybu dysgu'r disgyblion. Mae adeilad yr ysgol ar safle deniadol, sy'n eang ac yn cynnwys amrywiaeth o amgylcheddau sy'n hybu gweithgarwch awyr agored gwerthfawr. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn estyniad naturiol a defnyddiol i'r ardaloedd dysgu sydd dan do.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da ac yn cael ei gadw'n lan ac yn daclus. Mae'n cynnig awyrgylch gweithio da ar gyfer y disgyblion. Mae arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus, ac mae'n fodd i symbylu eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth gadarn o holl agweddau'r ysgol, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu'n effeithiol â'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ganddi ddisgwyliadau clir ynglŷn â'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion o fewn cymuned gynhwysol iawn, sy'n paratoi pob disgybl at fod yn 'aelod cyflawn o gymdeithas'.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r athrawon a gweddill y staff wedi eu diffinio'n glir. Mae'r strwythur staffio yn galluogi pob un ohonynt i gymryd, a rhannu, cyfrifoldeb yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n hwylus i adnabod anghenion datblygu'r ysgol, a sicrhau gwelliannau ar gyfer y disgyblion. Mae'r pennaeth yn monitro a gwerthuso'r gweithgarwch hwn yn briodol, ac yn llwyddo i sicrhau rhediad llyfn yr ysgol o ddydd i ddydd, hyd yn oed pan fydd hi ar safle'r ysgol arall.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bositif i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei weithredu'n dda yng nghynlluniau'r athrawon ac yn dylanwadu'n briodol ar y dysgu. Mae disgyblion bregus yn cael cefnogaeth gadarn wrth i'r ysgol weithredu'n bositif i ymateb i amddifadedd. Dan arweiniad yr awdurdod lleol, mae'r ysgol wedi cymryd camau adeiladol er mwyn codi hyder a hunan-gred disgyblion.

Er bod newidiadau diweddar i aelodaeth y llywodraethwyr, mae gan yr aelodau ymwybyddiaeth briodol am gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Maent yn gefnogol

iawn i weithgarwch yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn dda. Mae ychydig o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol i fod yn rhan o weithgarwch craffu a monitro, ond nid yw deilliannau'r gweithgarwch hwn yn ddigon arfarnol, nac yn awgrymu ffyrdd i ddatblygu. Cyfyng yw cyfraniad y llywodraethwyr i'r broses o lunio'r adroddiad hunanarfarnu. O ganlyniad, nid yw eu rôl yng ngweithdrefnau strategol yr ysgol wedi ei datblygu'n llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r ysgol wedi ei sefydlu'n briodol ar ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'n cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a monitro effaith unedau o waith. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn nodi cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn glir. Mae barn athrawon, staff eraill a'r disgyblion yn cyfrannu'n adeiladol at y broses. Mae'r athrawon yn dadansoddi data perfformiad disgyblion unigol yn drwyadl, ac yn adnabod eu cynnydd yn dda. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn gyfrwng i'r ysgol adnabod a chynllunio camau gwelliant. Fodd bynnag, nid yw rôl y llywodraethwyr i ddadansoddi tystiolaeth a thrafod cyfeiriad strategol yr ysgol wedi datblygu'n ddigonol hyd yn hyn.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun cywir a manwl o'r ysgol gan nodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwella'n glir. Caiff y ddogfen ei gwerthuso a'i hadolygu'n rheolaidd, ac mae'n gymorth i'r pennaeth a'r athrawon sicrhau cyfeiriad clir i'r ysgol.

Mae cyswllt amlwg rhwng yr hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae hon yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r blaenoriaethau'n addas a pherthnasol i sefyllfa gyfredol yr ysgol, ac mae camau gweithredu yn ymarferol. Maent yn cynnwys amserlen ar gyfer cyflawni, cyfrifoldebau staff a dyraniad adnoddau a chyllid addas. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson ac yn adolygu'r camau gweithredu yn ôl yr angen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith bositif ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cymdeithas rhieni'r ysgol yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd. Defnyddir yr arian yn bwrpasol i gefnogi'r ysgol; er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r rhieni wedi prynu offer TGCh.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag ysgol gyfagos. Maent yn cynllunio ar y cyd ac yn rhannu syniadau a phrofiadau dysgu. Mae gweithdrefnau cadarn yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar draws y ddwy ysgol a hefyd gyda'r ysgolion uwchradd. Mae hyn yn sicrhau bod gan athrawon ddealltwriaeth glir mewn perthynas â lefelu gwaith disgyblion, yn arbennig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae'r trefniadau pontio llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd sy'n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag amrediad eang o asiantaethau allanol, sy'n cynnwys yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau iechyd a lles.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.  Er enghraifft, gwahoddir Sefydliad y Merched yn rheolaidd i'r ysgol i weithio gyda disgyblion, yn ogystal â henoed y pentref i fynychu gwasanaethau a chiniawau yn yr ysgol.  O ganlyniad i'r bartneriaeth agos â'r capel lleol, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i berfformio'n gyhoeddus mewn gwasanaethau a chyngherddau.  Mae'r gweithgareddau hyn  yn cryfhau cysylltiad yr ysgol â'r gymuned leol yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol athrawon a staff cynorthwyol cymwys i ddarparu addysg eang a chytbwys i'w disgyblion.  Mae'r disgyblion yn elwa o gyfraniadau gan athrawon teithiol ac ymwelwyr eraill sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy wersi cerddoriaeth ac addysg gorfforol.  Mae'r pennaeth yn rheoli staff yn dda, gan gynnwys defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael yn y ddwy ysgol yn effeithiol er lles disgyblion ar y ddau safle.  Mae hyn yn cynnwys addysgu disgyblion y ddwy ysgol gyda'i gilydd ar ddau hanner diwrnod.  Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn gwneud cyfraniad cadarn at brofiadau disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad athrawon yn drylwyr ac yn arwain at gyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon.  Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae'r staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol er lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag un ysgol leol yn benodol, a chyda'r teulu o ysgolion cynradd yn gyffredinol er mwyn datblygu cynlluniau dysgu effeithiol.  Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i arsylwi a rhannu arfer dda mewn ysgolion eraill er mwyn gwella'u haddysgu.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i roi cefnogaeth i'r disgyblion perthnasol i ddatblygu eu hunanhyder a'u hunanreolaeth.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, gan fonitro gwariant yn gyson.  O ystyried cynnydd disgyblion ac ansawdd da'r addysgu, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692009 - Ysgol Gynradd Llangain**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 27 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 7 | 5 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 28.6 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 28.6 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 14.3 | 40.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 57.1 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 28.6 | 0.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 | * |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 85.7 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 28.6 | 80.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 | * |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Aled Rhydian Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Trefina Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.